# Chi a'ch gweithiwr gofal cymdeithasol – beth i'w ddisgwyl

## Mae gweithwyr gofal cymdeithasol yn eich helpu i fyw eich bywyd yn y ffordd yr ydych eisiau

I wneud yn siŵr fod gweithwyr yng Nghymru yn rhoi gofal a chymorth da i chi, mae gan Ofal Cymdeithasol Cymru *Côd Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol* (y Côd) ac rydyn ni'n cofrestru grwpiau o weithwyr i wneud yn siŵr eu bod yn addas i weithio.

Set o reolau, neu safonau, y mae'n rhaid i weithwyr gofal proffesiynol weithio yn unol â nhw yw'r Côd, i helpu eich cadw'n ddiogel ac iach. Bydd y daflen hon yn helpu i chi wybod beth yw'r safonau.

## Beth mae'r Côd yn ei ddweud

I roi'r gofal a'r cymorth gorau i chi, rhaid i weithwyr gofal cymdeithasol:

- eich helpu i ddweud a chyflawni'r hyn sy'n bwysig i chi
- parchu eich urddas, preifatrwydd, dewisiadau, diwylliant, iaith, hawliau, credoau, safbwyntiau a dymuniadau
- eich cynorthwyo i aros yn ddiogel
- bod yn onest, sicr a dibynadwy
- bod yn gymwys i wneud eu swydd yn gywir.



## Ble gallaf i ddod o hyd i'r Côd?

Mae'r Côd ar gael ar-lein yn gofalcymdeithasol.cymru/cod neu gysylltwch â ni ar codau@gofalcymdeithasol.cymru

## Pwy sy'n gorfod cadw at y Côd?

Dylai pob gweithiwr gofal cymdeithasol ddilyn y Côd hyd yn oed os nad oes angen iddyn nhw gofrestru ar hyn o bryd. Rhaid i weithwyr gofal cymdeithasol sydd wedi'u cofrestru gyda ni ddilyn y Côd i barhau i weithio ym maes gofal cymdeithasol. Dyma nhw:

- rheolwyr cartrefi gofal i oedolion
- rheolwyr gofal cartref a gweithwyr gofal cartref
- rheolwyr a gweithwyr gofal preswyl i blant
- rheolwyr canolfannau preswyl i deuluoedd
- gweithwyr cymdeithasol a myfyrwyr gwaith cymdeithasol.





O bryd i'w gilydd, byddwn ni'n ychwanegu at y rhestr hon. Mae cynlluniau mewn lle i ni gofrestru'r gweithwyr canlynol:

- rheolwyr gwasanaethau mabwysiadu
- gweithwyr cartrefi gofal i oedolion
- rheolwyr lleoliadau oedolion
- rheolwyr eiriolaeth sy'n gweithio gyda phlant
- rheolwyr gwasanaethau maeth
- gweithwyr canolfannau preswyl i deuluoedd.

Mae ein Cofrestr yn gwneud yn siŵr bod gweithwyr:

- yn addas i weithio
- o gymeriad da
- yn meddu ar y cymwysterau sydd eu hangen arnynt
- yn cytuno i gadw at y Côd.

Gallwch wirio i weld a yw gweithiwr wedi'i gofrestru yn www.scwonline.wales/cy/search-the-register/

## Beth allwch chi ei wneud os nad yw eich gweithiwr gofal cymdeithasol yn gweithio yn unol â'r Côd?

1. Darllenwch y Côd i gyfarwyddo â'r safonau yn gofalcymdeithasol.cymru/cod
2. Rhannwch eich pryderon â chyflogwr eich gweithiwr gofal a gofyn beth fydd yn ei wneud
3. Os nad yw'r cyflogwr yn mynd i'r afael â'ch pryderon, gofynnwch am gopi o'u gweithdrefn gwyno i helpu i chi wybod beth i'w wneud nesaf
4. Os yw'r gweithiwr wedi'i gofrestru gyda ni ac nid yw siarad â'r cyflogwr wedi helpu, e-bostiwch ein tîm addasrwydd i ymarfer ar aiy@gofalcymdeithasol.cymru a byddan nhw'n ymateb drwy e-bost neu alwad ffôn yn unol â'ch dymuniadau.

Os ydych chi'n pryderu am safon y gofal a ddarperir gan gwmni neu sefydliad, gallwch gysylltu ag Arolygiaeth Gofal Cymru ar 0300 7900 126, ar agc@llyw.cymru neu ewch i'w gwefan yn arolygiaethgofal.cymru

